



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018 i 2019

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn gwahanol fformat, rhowch wybod i ni a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i helpu.

## Ein Diben


Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru ac i ddarparu gwell dyfodol i bawb.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi ein diben statudol, sy'n nodi bod yn rhaid i ni wneud y canlynol wrth arfer ein swyddogaethau:

- ymgynraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru
- cymhwysu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau bod ein cyfraniad at y saith nod llesiant mor fawr â phosibl.

## Nodau Llesiant



## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015–19

Datblygwyd ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i gynorthwyo darpariaeth ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyflwyno mewn un lle ein hamcanion a threfniadau eraill ar gyfer ymsefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein diwylliant a phopeth yr ydym yn ei ddarparu. Mae'n cyfrannu at ein gweledigaeth ac wedi ei seilio ar ein gwerthoedd a datganiad polisi sy'n amlinellu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'n cwmpasu ein holl swyddogaethau – gan gynnwys popeth yr ydym yn ei wneud mewn partneriaeth neu drwy gontract.

Ein hamcanion llesiant yw canolbwynt ein cynllun corfforaethol nesaf a byddwn yn defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'w bodloni. Wrth wneud hyn, byddwn yn blaenoriaethu ac yn dyrannu ein hadnoddau i sicrhau bod ein cyfraniad at y nodau llesiant mor fawr â phosibl er budd i Gymru gyfan.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhoi sylw i faterion er mwyn helpu i sicrhau:

- bod gennym ni ymddiriedaeth y cyhoedd
- bod pob cymuned yn cael profiad o wasanaeth sydd bob amser yn deg
- bod gennym weithlu sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu
- ein bod yn cynnig cyfleoedd i alluogi ein pobl i sicrhau bod y cyfraniad y maent yn ei wneud at ein sefydliad a'n gwaith mor fawr â phosibl
- ein bod yn cynnig cyfle cyfartal i'r holl grwpiau mewn cymdeithas – i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac i'r cyflogeion sy'n datblygu eu gyrfaoedd

### Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn nodi, yn flynyddol, yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gyffredinol i fodloni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'n ddogfen fyw ac fe'i cyhoeddir yn dilyn adolygiad o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2017/18, sydd ar gael yn Atodiad 1 ein [Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb](#). Gellir diwygio camau neu ychwanegu camau pellach mewn ymateb i heriau newydd sydd o'n blaenau, a nodir trwy fonitro ac adrodd parhaus neu newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae wedi ei strwythuro i adlewyrchu ein Cynllun Busnes 2018/19.

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb blynyddol a dylid rhoi sylwadau i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar glawr cefn y ddogfen hon.



## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19

	Nodau	Camau gweithredu	Mesuriad	Erbyn diwedd	Cyfrifol	Statws Coch Melyn Gwyrdd
1	<p>Sicrhau bod dealltwriaeth dda o anghenion cydraddoldeb unigolion (y mae eu nodweddion wedi eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a'u bod yn cael sylw.</p> <p>Er ein bod yn gweithio i ddarparu'r gorau y gallwn i bawb, rydym yn edrych yn benodol ar effeithiau posibl ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig ac rydym hefyd yn cynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach.</p>	<p>Ymgysylltu'n weithredol â phobl a chymunedau i ddeall yn well rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau yr ydym yn eu darparu a, phan fo'n berthnasol, gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth o grwpiau gwarchoddedig, yn fewnol ac yn allanol, a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â rhwystrau.</p>	<p><b>1</b> – Cofnodi trwy asesu effaith ein hymgysylltiad â phobl a chymunedau i ddeall yn well rhwystrau iddynt gael mynediad at y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.</p> <p>Byddwn yn rhannu ein dysgu ar draws y sefydliad i alluogi gweithio partneriaeth gwell ac i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu gyfleoedd a ganfyddir.</p>	Parhaus	Cyfoeth Naturiol Cymru gyfan	
2	<p>Ymsefydlu ystyriaeth o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan gefnogi sut yr ydym yn gweithio ac ymgysylltu ag eraill i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.</p> <p>Drwy'r gwaith hwn, bydd pobl Cymru yn gweld gwelliannau</p>	<p>Byddwn yn cyfrannu'n llawn at waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan ddefnyddio ein Datganiad Llesiant ac yn cyflawni o ran naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p>	<p><b>2</b> – Byddwn wedi cyfrannu at yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r 20 o gynlluniau llesiant lleol, fel ein bod yn sicrhau bod anghenion pawb, beth bynnag fo'u cefndiroedd, yn cael eu hystyried.</p>	Wrth i gynlluniau gael eu datblygu	Rheolwr prosiectau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	

	iechyd a llesiant trwy gydweithredu sector cyhoeddus.		<b>3</b> – Byddwn yn adrodd yn benodol ar y manteision cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a enillwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2018/19.	Mawrth 19	Ymarferwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	
3	Gwella sut yr ydym yn darparu gwasanaethau trwy newid siâp ein sefydliad.	<p>Byddwn yn cynorthwyo gwaith ar ddyluniad y sefydliad i ystyried a mynd i'r afael â materion a godir mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.</p> <p>Bydd cyfnod nesaf y Rhaglen Pwyslais ar Gwsmeriaid yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i staff helpu i siapio ein gwelliannau i wasanaethau.</p> <p>Byddwn yn asesu ein lefel o gydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau ac yn mynd i'r afael â phroblemau.</p> <p>Byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd o ran ymrwymiadau'r cynllun Hyder mewn Pobl Anabl, er mwyn</p>	<b>4</b> – Cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb dyluniad y sefydliad i sicrhau nad ydym yn rhoi pobl dan anfantais trwy ddylunio a newid sefydliadol.	Mai 18	Bwrdd Prosiect Newid Sefydliadol	
			<b>5</b> – Cwblhau ein harolwg pwyslais ar gwsmeriaid, adrodd ar ei ganfyddiadau, a chymryd camau fel sy'n briodol.	Medi 18	Rheolwr Rhoi Pwyslais ar Gwsmeriaid	
			<b>6</b> – Ailadrodd ein hymarfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan chwilio am broblemau o ran cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau a mynd i'r afael â'r problemau hyn.	Medi 18	Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb / Rhwydwaith Cydraddoldeb	

		<p>darparu mwy i staff a chwsmeriaid anabl.</p> <p>Gan ddefnyddio canlyniadau ein trydydd Arolwg Pobl, byddwn yn cyflawni o ran cynlluniau gweithredu dilynol.</p> <p>Byddwn yn gwneud cyfleusterau ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fwy hygyrch i bawb.</p>	<p><b>7</b> – Byddwn yn parhau i gydymffurfio 100% â chynllun sicrhau cyfweliad Hyder mewn Pobl Anabl.</p> <p><b>8</b> – Cynnal sesiynau cynnwys staff i lunio cynlluniau gweithredu ar y cyd er mwyn helpu i wneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn well lle i weithio.</p> <p><b>9</b> – Pan fo'n bosibl, byddwn yn troi pob toiled un defnyddiwr yn doiledau niwtral o ran y rhywiau.</p>	<p>Mawrth 19</p> <p>Medi 18</p> <p>Mawrth 19</p>	<p>rhwng y Rhywiau</p> <p>Arweinydd Tîm Recriwtio</p> <p>Grŵp Llywio Pobl a Thimau</p> <p>Rheoli Cyfleusterau</p>	
4	<p>Byddwn yn cynorthwyo datblygiad y sefydliad wrth iddo geisio datblygu diwylliant a ffyrdd o weithio fel y gall pobl a thimau ffynnu.</p>	<p>Byddwn yn gweithio i ddod yn sefydliad ystyriol o ddementia. Trwy wneud hynny, byddwn yn datblygu diwylliant sy'n deall ac yn cynorthwyo staff a allai fod wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan ddementia, gan ein galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysol i'n cymunedau lleol.</p> <p>Byddwn hefyd yn cyfrannu at Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithlu Stonewall 2019.</p>	<p><b>10</b> – Byddwn yn parhau i weithio ar ein hachrediad ystyriol o ddementia. Bydd hwn yn cymryd tan 2020 i'w gwblhau.</p> <p><b>11</b> – Byddwn yn cyflwyno ein cyfraniad at Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2019 ac yn gwella ein safle presennol o 132<sup>ain</sup> yn y DU.</p>	<p>Parhaus ond yn adrodd ar gynnydd ym mis Mawrth 19</p> <p>Medi 18</p>	<p>Hyrwyddwr Dementia / Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl</p> <p>Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a mwy</p>	

					Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl Caffael	
5	<p>Sicrhau bod llywodraethiad effeithiol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Dim ond trwy gyflawni ein camau gweithredu y gallwn ddarparu'r amodau cyflogaeth gorau a'r ddarpariaeth orau o wasanaethau i'n cwsmeriaid.</p>	<p>Byddwn yn cynnig diweddariadau ar gynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun hwn i'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol, sy'n gyfrifol am graffu ar gynnydd. Bydd diweddariadau yn cael eu darparu ddwywaith yn y flwyddyn ariannol i adrodd ar gynnydd a wnaed a'r momentwm o ymsefydlu'r agenda cydraddoldeb.</p>	<p><b>12</b> – Darparu diweddariad cydraddoldeb canol blwyddyn i'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol a'r Bwrdd.</p>	Medi 18	<p>Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb</p>	
			<p><b>13</b> – Darparu adroddiad cydraddoldeb diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol a'r Bwrdd.</p>	Mawrth 19		

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwe, 9am – 5pm)  
[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth  
Naturiol Cymru.

